# Y PWYLLGOR SAFONAU

Dydd Gwener, 11 Medi, 2015

**YN BRESENNOL:** Mr C.A. Downward (Yr Is-gadeirydd yn cadeirio)

**Aelodau Annibynnol:**
M. Dodd, M.A. Morgan ac A. Williams

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen a B.A.L. Roberts

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
Ms L. Rees-Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
Mr R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mrs A. Clarke, Rheolwr Polisi
Mrs M. Evans Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 11.10 a.m**.

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd G.B. Thomas, Mr P. Stait a'r Cynghorydd Cymuned J. Gilasbey.

Dywedodd yr Is-gadeirydd wrth y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn dost ac, ar ran y Pwyllgor, dymunodd wellhad llwyr a buan i Mr Stait.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd dim buddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. LLOFNODI BOD COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A OEDD WEDI'I GYNNAL AR 29 GORFFENNAF 2015 YN GYWIR

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a oedd wedi'i gynnal ar 29 Gorffennaf 2015 yn gywir.**

## 4. NEWID TREFN Y MATERION

Ar wahoddiad y Cadeirydd ac yn unol â Rheol 2 [3] o Weithdrefn y Cyngor, cytunodd y Pwyllgor i newid trefn y materion oedd yn weddill ar yr agenda.

## 5. ADOLYGU'R POLISI CORFFORAETHOL YNGHYLCH DATGELU CAMARFER

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad oedd yn darparu adolygiad blynyddol o'r Polisi Corfforaethol ynghylch Datgelu Camarfer, gyda golwg ar gynnwys gwybodaeth berthnasol yn ei gylch yn Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd i'r Cyngor.

Adroddwyd bod y Cyngor wedi cael tair o gwynion datgelu camarfer newydd rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015, o gymharu ag un gŵyn newydd yn

2013/14. Daethpwyd â'r cwynion hyn i derfyn fel a ganlyn:-

1. Daethpwyd ag un gŵyn i derfyn yn dilyn cyswllt â'r achwynydd honedig;
2. Ymchwiliwyd i un gŵyn ond ni chafwyd hyd i dystiolaeth i gadarnhau'r gŵyn;
3. Ymchwiliwyd i un gŵyn ac arweiniodd hynny at gynnal ymchwiliad disgyblu ffurfiol.

Nid oedd unrhyw gwynion wedi eu cario ymlaen o 2013/14 ac nid oes unrhyw gwynion wedi eu cario ymlaen i 2015/16.

Mae'r Cyngor wedi parhau i gymryd camau i godi ymwybyddiaeth y staff o'r polisi a sicrhau bod rheolwyr wedi cael eu hyfforddi'n llawn i adnabod cwynion datgelu camarfer ac ymdrin â nhw'n briodol.

Codwyd y sylwadau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r gwelliant yn y cyfraddau cwblhau mewn perthynas â'r modiwl e-ddysgu ynghylch datgelu camarfer ac, yn benodol, canmolodd Adran y Prif Weithredwr am ei chyfradd gwblhau o 100%.

Llongyfarchwyd y swyddogion ar lunio adroddiad cynhwysfawr oedd wedi'i gyflwyno'n dda.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2014/2015

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Blynyddol drafft ynghylch y gwaith oedd wedi ei gyflawni gan y Pwyllgor yn ystod 2014/15 a nododd, petai'r adroddiad yn cael ei fabwysiadu, y byddai'n cael ei roi gerbron cyfarfod y Cyngor Sir naill ai ym mis Tachwedd neu ym mis Rhagfyr i'w gymeradwyo.

Nodwyd bod y rhan ynghylch y Gynhadledd Safonau Flynyddol wedi'i gadael yn wag yn fwriadol oherwydd teimlwyd y gellid ei chwblhau ar ôl mynychu'r gynhadledd.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen diweddaru'r rhan ynghylch datgelu camarfer a bod y dyddiad anghywir wedi'i gynnwys o dan bwynt 2. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai'r gwallau hyn yn cael eu cywiro ac y byddai'n dosbarthu drafft diwygiedig i'r aelodau i'w gymeradwyo cyn bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR**, yn amodol ar y newidiadau y cyfeiriwyd atynt uchod, y dylid mabwysiadu Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2014/15.

## 7. CYDYMFFURFIO Â'R CÔD YMDDYGIAD GAN GYNGHORWYR TREF A CHYNGHORWYR CYMUNED

Yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2015, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ynghylch i ba raddau roedd aelodau Cynghorau Tref a Chymuned yn cydymffurfio â'r Côd Ymddygiad (gweler cofnod 5). Fodd bynnag, gan nad oedd yr holl Gynghorau Tref a Chymuned wedi ymateb i geisiadau am wybodaeth, roedd bylchau sylweddol yn yr adroddiad ac roedd y Pwyllgor wedi gofyn am adroddiad

diweddaru pellach yn y cyfarfod heddiw.

Nododd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol y dylai'r ffigurau mewn perthynas â Llansteffan a Llan-y-bri fod fel a ganlyn: 0 Cwyn ynghylch y Côd 2012/2013 a 40 Datganiad 2012/2013. Hefyd, rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf ganlynol i'r Pwyllgor a oedd wedi'i derbyn ar ôl dosbarthu'r agenda:-

| | |
|---|---|
| Llanllwni: | 2012/13 – 0 Hyfforddiant ynghylch y Côd, 3 Datganiad<br>2013/14 – 0 Hyfforddiant ynghylch y Côd, 1 Datganiad<br>2014/15 – 0 Hyfforddiant ynghylch y Côd, 3 Datganiad |
| Cynwyl Gaeo: | 2012/13 – 0 Hyfforddiant ynghylch y Côd, 1 Datganiad<br>2013/14 – 2 Hyfforddiant ynghylch y Côd, 2 Ddatganiad<br>2014/15 – 3 Hyfforddiant ynghylch y Côd, 2 Ddatganiad |

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2014/15

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y cyfnod 2014/15 a oedd yn cynnwys manylion ynghylch cwynion o gamweinyddu a methiant gwasanaeth yn erbyn cyrff cyhoeddus a honiadau yn erbyn aelodau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r Côd Ymddygiad.

Adroddwyd bod nifer cyffredinol y cwynion o gamweinyddu yn erbyn awdurdodau cyhoeddus wedi cynyddu 7%, o gymharu â chynnydd o 8% y flwyddyn flaenorol. Roedd y gyfran fwyaf o gwynion yn dal yn ymwneud ag awdurdodau lleol ac roedd nifer y cwynion a gofnodwyd yn erbyn awdurdodau lleol wedi cynyddu 5%, o gymharu â chynnydd o 9.5% y flwyddyn flaenorol. O'r 2,015 o gwynion o gamweinyddu a ddaeth i derfyn, dim ond 428 y bwriwyd ymlaen â nhw a dim ond 349 o'r rheiny (82%) a arweiniodd at gadarnhau'r gŵyn neu ei chadarnhau'n rhannol.

Cyhoeddwyd cyfanswm o 12 Adroddiad er Budd y Cyhoedd, ac roedd un ohonynt yn ymwneud â Chyngor Sir Caerfyrddin. Roedd y mater hwn yn ymwneud â digwyddiadau yn 2012 a chyflwynwyd adroddiad yr Ombwdsmon i'r Cyngor Llawn ar 24 Chwefror 2015.

Penderfynwyd ynghylch cyfanswm o 58 o gwynion o gamweinyddu yn ymwneud â Chyngor Sir Caerfyrddin. Yn gyffredinol, roedd nifer y cwynion ynghylch y Côd Ymddygiad wedi cynyddu 1%, o gymharu â gostyngiad o 22% yn 2013/14. Roedd nifer y cwynion ynghylch y Côd yn erbyn Cynghorwyr Sir wedi cynyddu 13% tra bod nifer y cwynion yn erbyn Cynghorwyr Cymuned wedi gostwng 8%. O'r 239 o gwynion ynghylch y Côd a ddaeth i derfyn yn ystod y flwyddyn, dim ond 34 o achosion oedd yn destun ymchwiliad. O'r rhain, mewn 17 o achosion nid oedd tystiolaeth o dorri'r Côd, mewn 8 o achosion nid oedd angen cymryd unrhyw gamau, cyfeiriwyd 1 achos at Banel Dyfarnu Cymru a chyfeiriwyd 8 achos at Bwyllgorau Safonau lleol. Daethpwyd â chyfanswm o 15 o gwynion ynghylch y Côd yn ymwneud â Chynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned o Sir Gaerfyrddin i derfyn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. CYFARWYDDYD DIWYGIEDIG YR OMBWDSMON

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddyd diwygiedig mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad i Aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Roedd y prif newidiadau i fersiynau blaenorol o'r Cyfarwyddyd fel a ganlyn:-

1. Esboniad ynghylch y prawf dau gam a ddefnyddir gan yr Ombwdsmon wrth benderfynu a ddylid ymchwilio neu beidio;
2. Cyfarwyddyd pellach ynghylch defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a mynegiant gwleidyddol;
3. Cyfarwyddyd pellach ynghylch datgan buddiannau.

Gan fod y cyfarwyddyd wedi'i gyhoeddi ym mis Ebrill eleni, rhoddwyd ystyriaeth iddo wrth baratoi a chyflwyno'r hyfforddiant ynghylch y Côd Ymddygiad ym mis Mehefin.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 10. PANEL DYFARNU CYMRU - COFNOD PENDERFYNIADAU - Y CYNGHORYDD CYMUNED HAULWEN LEWIS

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor, ar 13 Awst 2015, y cynullwyd Tribiwnlys Achos o Banel Dyfarnu Cymru er mwyn rhoi ystyriaeth i atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r Cynghorydd Haulwen Lewis o Gyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth.

Roedd yr atgyfeiriad yn ymwneud â honiad bod y Cynghorydd Lewis wedi torri Côd Ymddygiad yr Aelodau mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar 16 Ionawr 2012. Honnwyd bod y Cynghorydd Lewis wedi methu â datgan buddiant personol a rhagfarnol pan roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gais cynllunio am fferm wynt ar dir wrth ymyl tir yr oedd hi'n berchen arno a'i bod hefyd wedi cymryd rhan mewn pleidlais gudd mewn perthynas â'r cais.

Cafodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol fod y Cynghorydd Lewis, drwy ei hymddygiad, wedi mynd yn groes i baragraffau 11(1) a 14(1)(a) y Côd. Hefyd, penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylai'r Cynghorydd Lewis gael ei hatal rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth am gyfnod o 3 mis, gan ddechrau ar 13 Awst 2015.

**PENDERFYNWYD**

**10.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;**

**10.2 gofyn i'r Swyddog Monitro ysgrifennu at holl Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned i'w hatgoffa o'u rôl o ran rhoi cyngor i aelodau ynghylch y Côd Ymddygiad ac, yn benodol, y gofyniad i wneud datganiadau pan fo angen.**

11. **CAIS AM OLLYNGIAD GAN BYMTHEG O GYNGHORWYR O GYNGOR CYMUNED GORS-LAS**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais a gyflwynwyd gan Glerc Cyngor Cymuned Gors-las, ar ran y Cynghorwyr Ellis Davies, Huw Davies, Terrence Davies, Dewi Wyn Edwards, Clive Green, Gavin Griffiths, Terry Jones, Tina Jukes, Brian Kirby, Nia Lewis, Simon David Martin, Aled Owen, Darren Price, Janice Ann Price, ac Anthony Rees, o Gyngor Cymuned Gors-las, am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Gors-las mewn perthynas â materion yn ymwneud â 3 pharc hamdden sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned ac sy'n cael eu cynnal a'u cadw ganddo.

Adroddwyd bod cais wedi'i wneud am ollyngiad gan fod gan bob un o'r 15 Cynghorydd fuddiant personol yn y materion hyn, yn unol â pharagraff 10(2)(ix)(ee) y Côd, yn yr ystyr eu bod yn aelodau o Bwyllgorau Cymdeithasau Lles lleol sy'n ymwneud â chynnal y parciau hynny. Nid oedd y Cynghorwyr wedi'u penodi i'w rolau ar y pwyllgorau hynny gan y Cyngor Cymuned.

Roedd buddiannau'r Cynghorwyr yn rhagfarnol gan y byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd a oedd yn gwybod y ffeithiau perthnasol ystyried bod y buddiant hwnnw mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ddylanwadu ar farn y Cynghorwyr ynghylch budd y cyhoedd. Er enghraifft, pan mae'r Cyngor Cymuned yn penderfynu a ddylid gwario arian ar y parciau neu beidio, byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd ddod i'r casgliad y byddai'r ffaith bod Cynghorydd yn aelod o Bwyllgor y Gymdeithas Les berthnasol yn dylanwadu ar ei farn/barn ynghylch a ddylid gwario'r arian ar y parc neu ar ryw fater arall nad yw'n gysylltiedig â'r Gymdeithas. Nodwyd nad oedd gan y Cynghorwyr fuddiant ariannol uniongyrchol yn eu Cymdeithasau Lles priodol.

Yn dilyn trafodaeth fanwl,

**PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad hyd at 11 Mawrth 2016, i'r 15 aelod uchod o Gyngor Cymuned Gors-las SIARAD A PHLEIDLEISIO yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Gors-las mewn perthynas ag unrhyw drafodaethau ynghylch y tri pharc hamdden sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned ac sy'n cael eu cynnal a'u cadw ganddo, o dan Reoliad 2(a) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.**

12. **CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD SHAHID HUSSAIN**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Shahid Hussain, a oedd yn aelod o Gyngor Tref Cwmaman, am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Cwmaman ar faterion yn ymwneud ag adleoli Swyddfa Bost Glanaman.

Adroddwyd bod cais wedi'i wneud am ollyngiad gan fod gan y Cynghorydd Hussain fuddiant personol yn y mater yn rhinwedd paragraff 10(2)(a)(i) y Côd Ymddygiad, gan ei fod yn ymwneud â busnes a gynhelir ganddo, ac yn debygol o effeithio ar y busnes hwnnw, yn yr ystyr bod y safle y bwriedir symud Swyddfa'r

Post iddo yn orsaf betrol sy'n eiddo i'r Cynghorydd Hussain.

Roedd buddiant y Cynghorydd Hussain hefyd yn rhagfarnol gan y byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd a oedd yn gwybod am fuddiant busnes ac ariannol y Cynghorydd Hussain yn y mater ystyried bod y buddiant hwnnw mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ddylanwadu ar ei farn ynghylch budd ehangach y cyhoedd.

Gofynnodd y Cynghorydd Hussain am ollyngiad o dan Reoliad 2(f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 oherwydd bod ei rôl neu ei arbenigedd penodol yn cyfiawnhau ei fod yn cymryd rhan. Dywedodd y Cynghorydd Hussain fod ei brofiad blaenorol o adleoli swyddfeydd post a'r goblygiadau ariannol yn sgil hynny yn unigryw ymhlith aelodau'r Cyngor a, phe na fyddai'n gallu cymryd rhan, y byddai'r Cyngor mewn perygl o wneud penderfyniad heb yr holl wybodaeth berthnasol.

Yn dilyn trafodaeth fanwl,

**PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad o dan Reoliad 2(f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Shahid Hussain SIARAD OND NID PLEIDLEISIO yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Cwmaman mewn perthynas ag unrhyw drafodaethau ynghylch adleoli Swyddfa Bost Glanaman, hyd at 4 Rhagfyr 2015.**

**Y CADEIRYDD** ____________________ **Y DYDDIAD** ____________________